Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad Cymru 2013

## Adroddiad CRIDE ar arolwg 2013 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

## Cyflwyniad

Yn 2013, cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei drydydd arolwg ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar ym mlwyddyn ariannol 2012/13[1]. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac mae fe'i bwriadwyd ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Mae o leiaf 2,904 o blant byddar yng Nghymru; cynnydd cofnodedig o 6% ers 2012. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i well cofnodi.
- Mae 85% o blant byddar yn mynychu ysgolion prif ffrwd lle nad oes darpariaeth arbenigol.
- Mae 16% o blant byddar wedi'u cofnodi fel rhai sydd ag angen addysgol arbennig ychwanegol. Ymddengys mai'r angen ychwanegol mwyaf cyffredin yw anawsterau dysgu cymedrol.
- Mae tua 5% o blant byddar ag o leiaf un mewnblaniad yn y cochlea.
- Mae tua 81% o blant byddar yn cyfathrebu trwy ddefnyddio Saesneg llafar yn unig, a thua 9% yn cyfathrebu trwy ddefnyddio Cymraeg llafar yn unig. Mae tua 6% yn defnyddio rhyw ffurf ar iaith arwyddion, naill ai ar ben ei hun neu ochr yn ochr â Saesneg llafar, ac mae 0.5% yn defnyddio Cymraeg llafar gydag iaith arwyddion.
- Cyflogir o leiaf 74.5 (cyfwerth ag amser llawn) Athrawon Plant Byddar.
- Mae Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau yn llai tebygol, yn gyfartaledd, o feddu ar y cymhwyster gorfodol mewn dysgu plant byddar , o'u cymharu ag Athrawon Plant Byddar peripatetig.
- Roedd 56% o'r gwasanaethau a atebodd yn gallu darparu cymorth Athro Plant Byddar peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn, ac nid oedd 44% yn gallu ei ddarparu. Mewn darpariaethau adnoddau, roedd 40% o'r gwasanaethau a atebodd yn gallu darparu cymorth Athro Plant Byddar peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn, ac nid oedd 58% yn gallu ei ddarparu.
- Mae yna o leiaf 83.4 (cyfwerth ag amser llawn) staff cymorth arbenigol arall yn gweithio gyda phlant byddar yng Nghymru, sydd yn gynnydd o 2% ers y llynedd.

[1] Gellir dod o hyd i adroddiadau 2012 ar wefan Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) yn http://www.batod.org.uk/index.php?id=/resources/survey neu ar wefan NDCS yn www.ndcs.org.uk/data (ar gael yn Saesneg yn unig).

Derbyniwyd atebion oddi wrth 17 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 o awdurdodau lleol.  Golyga hyn fod yr arolwg CRIDE hwn wedi cyflawni cyfradd ymateb o 100%.  Cafwyd yr un gyfradd ymateb y llynedd.

## Defnyddio'r canlyniadau

Lledaenir adroddiad CRIDE trwy wefannau NDCS a BATOD, sydd yn golygu bod gweithwyr proffesiynol, ymchwilwyr, pobl fyddar a rhieni plant byddar yn gallu cael gafael ar y canfyddiadau yn hawdd.  Gall y defnyddwyr hyn fanteisio ar y data cyfredol unigryw mewn gwahanol ffyrdd:

- Gall penaethiaid ysgol a gwasanaethau ar gyfer plant byddar wneud defnydd o'r canfyddiadau demograffig cymaradwy wrth iddynt baratoi ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol ar y ddarpariaeth leol.  Gall cael mynediad at ddata blynyddol helpu i sicrhau fod plant byddar yn cael eu hadnabod a bod darpariaeth effeithiol yn cael ei chynnig ar eu cyfer.
- I reolwyr, gall y set ddata lywio, yn ddibynadwy, gynllunio strategol yn ymwneud â staffio a materion hyfforddi staff - gellir adnabod tueddiadau sy'n llywio'r materion hyn.
- Caiff ymchwilwyr ym maes addysg fyddar sydd yn cyfrannu at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth fynediad at wybodaeth berthnasol a defnyddiol am y boblogaeth sy'n cael ei hastudio.
- Bydd yr adroddiad yn addysgiadol ac o ddiddordeb i rieni plant byddar ac i blant byddar, gan ei fod yn creu darlun o'r ddarpariaeth genedlaethol ar gyfer plant byddar.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dyfynnwyd data a gynhyrchwyd gan arolygon blaenorol CRIDE yn nadleuon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn atebion i gwestiynau’r Cynulliad, sydd yn dangos ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn Llywodraeth Cymru i gynorthwyo eu dealltwriaeth eu hunain o blant byddar yng Nghymru.  Hoffai CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am gymryd amser i ymateb, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.

## Dehongli'r canlyniadau

Er y credwn fod ansawdd y data wedi gwella, mae nifer o wasanaethau'n dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae o hyd anghysondebau yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg.  Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.

Trwy'r adroddiad rydym wedi amlygu unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon CRIDE 2010 a 2011.  Unwaith eto, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau oherwydd y newidiadau bychain yn y ffordd y geiriwyd cwestiynau o flwyddyn i flwyddyn a hefyd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb rhwng yr arolygon.

At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn â byddardod synwyrnerfol a dargludol *parhaol* yn ôl disgrifyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD.  Defnyddiwn y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel, o fân fyddardod i fyddardod llwyr.

Noder lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, rydym wedi dangos ‘<5’. Mae hyn er mwyn osgoi'r perygl o adnabod plant unigol.

## Cynnwys

Mae gan yr adroddiad hwn 7 rhan, fel y'i hamlinellir isod:


RHAN 1: Cyfanswm y plant byddar yng Nghymru ("perthyn") .......... 3
RHAN 2: Nifer y plant a gefnogir .......... 9
RHAN 3: Athrawon Plant Byddar .......... 13
RHAN 4: Staff arbenigol eraill .......... 17
RHAN 5: Meini prawf a threfniadau ariannu .......... 21
RHAN 6: Sylwadau i gloi .......... 25
RHAN 7: Cefndir a methodoleg .......... 26
Atodiad A: Nifer y plant byddar sy'n perthyn yn ôl gwasanaeth .......... 27
Atodiad B: Darpariaeth a chefnogaeth i blant â byddardod dros dro .......... 28


## RHAN 1: Cyfanswm y plant byddar yng Nghymru ("perthyn")

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion plant byddar sy'n "perthyn" i'r gwasanaeth. Diffiniwyd "perthyn" fel: pob plentyn byddar sy'n byw o fewn yr Awdurdod Lleol[2].

### Faint o blant byddar sydd?

Wrth roi ffigurau nifer y plant sy'n perthyn, gofynnwyd i wasanaethau roi ffigur cyffredinol yn gyntaf ac wedyn i ddarparu dadansoddiad yn ôl lefel byddardod a sefydliad addysgol. Canfuom na ddarparodd rhai o'r gwasanaethau'r data hwn yn gyson; darparodd rhai gwasanaethau ddosraniad o'r ffigurau oedd yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r cyfanswm a roddwyd mewn rhannau eraill o'r arolwg.

O ganlyniad, nid mater syml yw rhoi ateb pendant i'r cwestiwn faint o blant byddar sydd, a dylid defnyddio'r ffigurau hyn â gofal. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffigur uchaf a roddwyd o naill ai'r cyfanswm cyffredinol neu'r cyfanswm a gynhyrchwyd gan swm y ffigurau wedi'u dosrannu. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau ein bod wedi cynnwys cymaint o blant byddar ag sy'n bosib[3]. Yn yr achosion hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu" trwy gydol yr adroddiad hwn.

Wrth seilio'r ffigurau ar ymatebion gan 17 o wasanaethau yn cynrychioli 22 awdurdod lleol, y cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar yng Nghymru yw 2,904. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 2,743 yn 2011/12, a 2,755 yn 2010/11. Daw hyn i gynnydd cyffredinol o 5% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n anodd fod yn sicr i ba raddau y mae'r cynnydd hwn oherwydd newidiadau mewn demograffeg neu welliannau o ran cofnodi. Amlinellir y ffigurau heb eu haddasu isod.

[2] Mae hyn yn cynnwys plant byddar sy'n byw o fewn ffin yr awdurdod lleol ond sydd yn mynychu ysgol sydd y tu allan i'r awdurdod lleol. Nid yw'n cynnwys plant byddar sy'n byw tu allan i'r awdurdod lleol ond sydd yn mynychu ysgol o fewn yr awdurdod

[3] Mae hyn, wrth reswm, yn creu risg fod ffigurau cyffredinol wedi'u chwyddo trwy gynnwys ffigurau nifer y plant byddar sydd wedi'u goramcangyfrif gan wasanaethau. Ond, o ystyried yr hyn a wyddom am nodweddion sy'n debyg rhwng nifer y plant byddar a gofnodir fel rhai sy'n perthyn ac sydd wedi'u cefnogi, mae'r risg arall o danamcangyfrif cyfanswm plant bydda, yn ymddangos yn fwy difrifol.

Tabl 1: Ffigurau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo cyfanswm nifer y plant byddar

| | **Cyfanswm a gynhyrchir** |
|---|---|
| **Cyfanswm wedi'i addasu** | 2,904 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant yn gyffredinol** | 2,901 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl grŵp oedran** | 2,904 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl lefel byddardod (yn cynnwys 'Nid yw lefel byddardod yn hysbys')** | 2,899 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, wedi'i ddosrannu yn ôl sefydliad addysgol** | 2,901 |

## Beth mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel byddardod ac ardal.  Yn y rhan fwyaf o'r achosion, dim ond nifer fach o newidiadau arwyddocaol sydd i'r gyfran o blant sy'n perthyn i wahanol gategorïau o flwyddyn i flwyddyn, sydd yn awgrymu sefydlogrwydd o fewn y set ddata.

Tabl 2: Nifer y plant sy'n perthyn, yn ôl oedran

| **Grŵp oedran** | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** | **Cyfran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Cyn-ysgol** | 308 | 11% |
| **Ysgol gynradd** | 1,630 | 56% |
| **Ysgol gyfun** | 842 | 29% |
| **Pobl ifanc mewn chweched dosbarth a gynhelir (blwyddyn 12 i 13)** | 109 | 4% |
| **Pobl ifanc mewn addysg sydd wedi cwblhau blwyddyn 11 ond nad oeddynt mewn chweched dosbarth a gynhelir (e.e. mewn Addysg Bellach, prentisiaethau, arall)** | 15 | 1% |
| **Cyfanswm** (n=16) | **2,904** | |

Ynglŷn â nifer y bobl ifanc 'ôl 16' a gofnodwyd, adrodda 4 awdurdod (24% o wasanaethau) nad oes ganddynt unrhyw berson ifanc byddar mewn chweched dosbarth a gynhelir. O ran pobl ifanc ôl-16 eraill mewn addysg (h.y. mewn Addysg Bellach, prentisiaethau, ayb.) y mae 14 o wasanaethau (82% o wasanaethau) yn adrodd nad oes ganddynt unrhyw berson ifanc yn y categori hwn yn eu hardal. Cred CRIDE fod hyn yn adlewyrchu'r anawsterau sydd gan rai gwasanaethau wrth adnabod y bobl ifanc hyn yn hytrach nag absenoldeb llwyr carfan o bobl ifanc byddar mewn addysg ôl 16 yn yr ardaloedd hyn.

Tabl 3: Nifer y plant sy'n perthyn, yn ôl lefel byddardod

| **Lefel byddardod** | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** | **Cyfran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| **Unochrol** | 334 | 12% |
| **Mân** | 920 | 32% |
| **Cymedrol** | 1,061 | 37% |
| **Difrifol** | 281 | 10% |
| **Llwyr** | 286 | 10% |
| **Cyfanswm heb gynnwys 'Nid yw'n hysbys'** (n=16) | **2,882** | |
| | | |
| **Nid yw'n hysbys** | **17** | |

Rhestra atodiad A ymatebion unigol gan wasanaethau i'r cwestiwn hwn.

Tabl 4: Nifer y plant, sy'n perthyn yn ôl sefydliad addysgol

| **Math o ddarpariaeth addysgol** | | **Nifer y plant byddar** | **Cyfran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref - plant cyn-ysgol | 255 | 8.8% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 5 | 0.2% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 2,127 | 73.3% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (e.e. Eton) | 13 | 0.4% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | 190 | 6.5% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 163 | 5.6% |
| | Chweched dosbarth ysgolion (yn cynnwys ysgolion arbennig) | 77 | 2.7% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall | 14 | 0.5% |
| **Tu allan i'r awdurdod lleol** | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 17 | 0.6% |
| | Ysgolion annibynnol prif ffrwd (nas ariennir gan y wladwriaeth) | <5 | <0.2% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | <5 | <0.2% |
| | Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar (a gynhelir a nas cynhelir) | 22 | 0.8% |
| | Ysgol arbennig arall, nad yw ar gyfer plant byddar yn benodol | 8 | 0.3% |
| | Chweched Dosbarth Ysgolion (yn cynnwys ysgolion arbennig) | 0 | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall | 0 | 0% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | 0 | 0% |
| | Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion) | <5 | <0.2% |
| | Nid yw'n hysbys | 0 | 0% |
| **Cyfanswm (heb ei addasu)** (n=16) | | **2,901** | |

Tabl 5: Dadansoddiad o fathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)

| **Math o ddarpariaeth addysgol (heb gynnwys 'arall' ac 'nid yw'n' hysbys')** | **Cyfradd o'r cyfanswm** |
|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol cartref** | 98% |
| **Tu allan i'r awdurdod lleol cartref** | 2% |

Tabl 6: Dadansoddiad o fathau o ddarpariaeth addysgol (ni waeth o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol)

| **Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth o fewn neu du allan i'r awdurdod lleol)** | **Nifer y plant byddar** | **Cyfradd o'r cyfanswm** | **Cyfradd o'r cyfanswm o blant oedran ysgol (h.y. heb gynnwys plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl 16 ac arall)** |
|---|---|---|---|
| **Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – cyn-ysgol** | 255 | 8.8% | - |
| **Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref** | 5 | 0.2% | 0.2% |
| **Ysgolion prif ffrwd (yn cynnwys ysgolion annibynnol)** | 2,159 | 74.4% | 84.6% |
| **Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau** | 194 | 6.7% | 7.7% |
| **Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar** | 22 | 0.8% | 0.8% |
| **Ysgolion arbennig eraill** | 171 | 5.9% | 6.7% |
| **Darpariaeth ôl 16 i gyd yn cynnwys chweched dosbarth ysgolion, Addysg Bellach, prentisiaethau, ayb.** | 91 | 3.2% | - |
| **Arall (e.e.Unedau cyfeirio disgyblion, NEET, yn derbyn addysg yn y cartref, nid yw'n hysbys)** | <5 | <0.2% | - |
| **Cyfanswm** (n=16) | **2,901** | | |
| **Cyfanswm (heb gynnwys plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl 16 ac 'arall')** | **2,551** | | |

Ychwanegwyd categorïau newydd[4] eleni a gwnaethpwyd newidiadau bychain i rai o'r categorïau eraill er mwyn caniatáu dadansoddiad mwy soffistigedig, felly nid yw'n bosib cymharu'r data hwn yn union â data arolwg y llynedd. Mae'r her o sefydlu categorïau arwahanol heb or-gymlethu'r arolwg yn parhau.

Awgryma canlyniadau CRIDE 2013 fod 85% o blant byddar oedran ysgol mewn sefydliad prif ffrwd heb ddarpariaeth arbenigol (heb gynnwys chweched dosbarth). Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 63 o blant byddar yn perthyn o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 1,053 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n perthyn mewn pob gwasanaeth oedd 171.

## Amlder Anhwylder ar y Sbectrwm Niwropatheg Clywedol (ANSD)

Rhoddodd 11 o wasanaethau ffigur wrth ateb cwestiwn am nifer y plant oedd ag ANSD yn eu hardal. Nid oedd yn glir bob tro a oedd gwasanaethau eraill heb roi ffigur oherwydd nad oes ganddynt blant ag ANSD neu oherwydd nad ydynt yn gwybod a oes plant ag ANSD ganddynt neu beidio. Serch hynny, yn seiliedig ar eu hymatebion, mae yna 23 o blant byddar yng Nghymru sy'n dioddef o'r cyflwr hwn, 0.4% o holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu).

Y ganran uchaf o ANSD o fewn gwasanaeth unigol oedd 5.5%. Nifer cyfartalog y plant ag ANSD mewn pob gwasanaeth a ymatebodd i'r arolwg oedd tua 2.

Oherwydd protocolau sgrinio clyw babanod, yr unig ffordd ddibynadwy o ganfod bod babanod yn dioddef o ANSD yn dilyn gweithredoedd profi ar y rheiny sydd wedi bod mewn Unedau Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NICU), ac nis canfyddir gan y sgrinio a ddefnyddir ym mhoblogaeth 'babanod iach'. Cymru oedd y wlad gyntaf ym Mhrydain i gyflwyno sgrinio clyw babanod i bob babi yn 2003. Awgryma ffigurau a ddarperir trwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod bod tua 1 o bob 10 plentyn sydd â byddardod cynhenid yn dioddef o ANSD. Felly mae hyn yn awgrymu bod rhai o'r gwasanaethau'n tangofnodi. Gall hyn fod oherwydd methu ag adnabod ANSD mewn plant byddar hŷn - y rhai na chawsant eu sgrinio yn fabanod gan eu bod wedi cael eu geni cyn i sgrinio gael ei gyflwyno i bob babi yn 2003, y 'babanod iach' a basiodd y sgrinio ac a gafodd eu canfod yn ddiweddarach, yn ogystal â'r rhai sydd â byddardod caffaeledig / cynyddol nad ydynt wedi cael eu profi am ANSD.

## Amlder anghenion addysgol arbennig ychwanegol (AAA)

Gofynnwyd i wasanaethau ddweud wrthym sawl plentyn (o'r cyfanswm "sy'n perthyn") oedd ag angen addysgol arbennig ychwanegol (fel y'i diffinnir gan God Ymarfer AAA Cymru) yn angen eilaidd, a faint oedd ag angen addysgol arbennig ychwanegol yn brif angen.

Tabl 7: Anghenion addysgol arbennig ychwanegol yn angen eilaidd neu'n brif angen

| | Cyfanswm o blant | Fel canran o'r rhai "sy'n perthyn" | Nifer y gwasanaethau a ymatebodd |
|---|---|---|---|
| **Plant a phobl ifanc ag anhawster addysgol arbennig ychwanegol yn "angen eilaidd"?** | 222 | 7.6% | 12 |
| **Plant a phobl ifanc ag anhawster addysgol arbennig ychwanegol arall yn "brif angen" (h.y. mae byddardod yn angen eilaidd neu arall)** | 235 | 8.1% | 13 |
| **Cyfanswm** | 457 | 15.7% | |

Golyga hyn fod, yn gyffredinol, 14 o wasanaethau (82%) yn gallu dweud wrthym faint o blant byddar oedd ag AAA ychwanegol (fel y'i diffinnir gan God Ymarfer AAA Cymru). Mae'r ffigur yn dangos bod y cyfanswm wedi'i addasu cyffredinol o blant byddar sydd ag AAA ychwanegol yn

[4] Y categorïau a ychwanegwyd yw 'O fewn yr ALl: Wedi'u cynorthwyo yn y cartref - oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref'. 'O fewn yr ALl: Chweched Dosbarth Ysgolion (yn cynnwys ysgolion arbennig)' a 'Tu allan i'r ALl: Chweched Dosbarth Ysgolion (yn cynnwys ysgolion arbennig)'

457. Mae hyn yn 15.7% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar, sydd yn gynnydd o 14% yn 2011/12.

Gofynnir i wasanaethau ddarparu dadansoddiad yn ôl y math o angen addysgol arbennig ychwanegol. Ar gyfer y cwestiwn hwn, nid oedd yn bosib i rai o'r gwasanaethau ddarparu dadansoddiad felly mae'r cyfanswm wedi'i addasu yn uwch na'r cyfanswm sydd heb ei addasu sy'n cynnwys cyfanswm y ffigurau sydd wedi'u dadansoddi (337). Gofynnir i wasanaethau i ddadansoddi'r ffigur hwn yn ôl y math o AAA, gan ddefnyddio'r dosbarthiad a nodwyd yng Nghod Ymarfer AAA Cymru.

Tabl 8: Nifer y plant byddar sydd ag AAA ychwanegol, yn ôl math o AAA

| | **Nifer y plant byddar** | **Canran o blant byddar sydd ag AAA ychwanegol (lle bo'r math o AAA yn hysbys)** | **Canran o holl blant byddar** |
|---|---|---|---|
| **Anhawster Dysgu Penodol** | 8 | 2% | 0.3% |
| **Anhawster Dysgu Cymedrol** | 76 | 23% | 2.6% |
| **Anhawster Dysgu Difrifol** | 73 | 22% | 2.5% |
| **Anahwster Dysgu Dwys a Lluosog** | 45 | 13% | 1.5% |
| **Anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol** | 10 | 3% | 0.3% |
| **Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu** | 25 | 7% | 0.9% |
| **Nam ar y Golwg** | 7 | 2% | 0.2% |
| **Nam Amlsynnwyr** | 37 | 11% | 1.3% |
| **Anabledd Corfforol** | 17 | 5% | 0.6% |
| **Anhwylder Sbectrwm Awtistig** | 17 | 5% | 0.6% |
| **Anhawster / Anabledd arall** | 22 | 7% | 0.8% |
| **Nid yw'n hysbys** | 21 | - | 0.7% |
| **Cyfanswm (heb ei addasu) (n=14)** | **358** | | 20% |
| **Cyfanswm heb gynnwys atebion "nid yw'n hysbys" (heb ei addasu)** | **337** | | |

Awgryma'r ffigurau mai anhawster dysgu cymedrol yw'r AAA ychwanegol mwyaf cyffredin ac wedyn anhawster dysgu difrifol ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Parhawn i ddefnyddio categorïau gwahanol ar gyfer plant byddar sydd ag angen ychwanegol o nam ar y golwg a nam amlsynnwyr yn ôl cyfarwyddyd y rhai sy'n gweithio gyda phlant sydd â namau amlsynnwyr, ond parhawn i fod yn ymwybodol o'r cymysgwch y mae hyn yn ei achosi.

Awgrymodd ymchwil[5] o 1996 bod 40% o blant byddar ag anghenion ychwanegol. Ond mae'r ymchwil hwn yn defnyddio diffiniad eang o anghenion ychwanegol (yn cynnwys, er enghraifft, ecsema a pharlys yr ymennydd) tra y synnir am AAA, fel rheol, trwy ddilyn Cod Ymarfer AAA Cymru, i gyfeirio at achosion pan fod gan blant anhawster dysgu sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt. Mae diffiniad anhawster dysgu yn cynnwys pan fydd gan blant anabledd sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod lleol. Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y seiliwyd yr ymchwil hwn ar nifer fach o blant byddar, heb gynnwys plant â byddardod mân ac unochrol.

## Plant byddar â mewnblaniadau yn y cochlear

Roedd yn bosib i 16 gwasanaeth ddarparu gwybodaeth am nifer y plant byddar oedd â mewnblaniad yn y cochlear[6]. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, mae yna 138 plentyn byddar ar draws Cymru sydd â mewnblaniadau yn y cochlear (cyfanswm wedi'i addasu). Mae hyn yn cynrychioli 5% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar.

[5] Fortnum et al. (1996) *Health service implication of changes in aetiology and referral patterns of hearing impaired children in the Trent region.* (Saesneg yn unig)
[6] Er na ddarperodd pob gwasanaeth ffigur am bob grŵp oedran.

Tabl 9: Nifer y plant byddar sy'n perthyn sydd â mewnblaniadau yn y cochlear, yn ôl grŵp oedran

| Oedran | Cyfanswm sydd â mewnblaniadau yn y cochlear | Cyfanswm y plant byddar o fewn pob categori oedran | Canran o'r cyfanswm o fewn pob categori oedran |
|---|---|---|---|
| **Cyn-ysgol** | 23 | 308 | 1% |
| **Oedran ysgol gynradd** | 68 | 1,630 | 2% |
| **Oedran ysgol gyfun** | 40 | 842 | 1% |
| **Ôl 16** | 7 | 116 | 0.2% |
| **Nid yw'n hysbys** | 0 | - | - |
| **Cyfanswm** (n=16) | **138** | **2,904** | 5% |

Ar gyfartaledd, mae'r ganran o blant byddar sydd â mewnblaniad yn y cochlear wedi parhau i fod yn 5% ers 2011/12.

## Ieithoedd ychwanegol

Tabl 10: Nifer y plant byddar, yn ôl yr ieithoedd a ddefnyddir gyda'r plentyn, fel arfer

| Iaith | Cyfanswm | Canran o'r ymatebion (lle bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| **Saesneg llafar** | 1,289 | 81% |
| **Cymraeg llafar** | 146 | 9.2% |
| **Iaith Arwyddion Prydain** | 22 | 1.4% |
| **Iaith Arwyddion arall** | 8 | 0.5% |
| **Iaith lafar arall** | 23 | 1.4% |
| **Saesneg llafar ynghyd ag iaith arwyddion** | 68 | 4.3% |
| **Cymraeg llafar ynghyd ag iaith arwyddion** | 8 | 0.5% |
| **Saesneg llafar ynghyd ag iaith arall ar lafar** | 19 | 1.2% |
| **Cymraeg llafar ynghyd ag iaith arall ar lafar** | 9 | 0.6% |
| **Iaith lafar arall ynghyd ag iaith arwyddion** | 0 | 0% |
| | | |
| **Cyfanswm sy'n hysbys** (n=120) | **1,592** | |
| | | |
| Nifer a adroddwyd “nid yw'n hysbys” | 7 | |

Darparodd 15 gwasanaeth wybodaeth am o leiaf rhan o'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, nid oedd yn bosib i rai adnabod iaith pob plentyn byddar yn eu hardal. Mae tua 1,305 plentyn byddar nad oes cyfrif amdanynt yn y ffigurau uchod, felly dylid defnyddio'r ffigurau â gofal. Wedi dweud hynny, mae nifer y plant byddar a gofnodwyd yn y cwestiwn hwn wedi codi o 1,387 ers yr arolwg diwethaf.

Defnyddia 91.6% o blant byddar yng Nghymru iaith lafar: Saesneg (81%), Cymraeg (9.2%) neu iaith lafar arall (0.5%). Mae nifer y plant byddar yng Nghymru sy'n defnyddio iaith arwyddion wedi cynyddu o 4% yn 2011/12 i tua 6% yn 2012/13.

Dylid nodi bod geiriad y cwestiwn hwn wedi newid ers arolygon blaenorol, o ofyn am y ieithoedd a ddefnyddir yn y cartref i’r iaith a ddefnyddir gyda’r plentyn. Newidwyd y geiriad ar ol adborth gan wasanaethau oedd yn awgrymu nad oedden nhw fel arfer yn cofnodi gwybodaeth am ieithoedd a ddefnyddir yn y cartref. Rhaid nodi hefyd bod rhai categoriau newydd wedi’u ychwanegu eleni, yn seiliedig ar adborth oddi wrth wasanaethau y llynedd, felly mae’n anodd gwneud cymhariaeth uniongyrchol o’r ieithoedd sy’n cael eu heffeithio gan y newidiadau yma. Gallai’r ddau newid yma gael effaith ar unrhyw newid mewn cyfrannau o’u cymharu â’r ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd rhan 2, cymharwn sut mae'r ffigurau hyn am nifer y plant byddar yn cymharu â ffynonellau eraill.

## RHAN 2: Nifer y plant byddar a gefnogir

Yn gynharach, edrychasom ar nifer y plant byddar sy'n "perthyn" i neu sy'n byw o fewn awdurdod lleol. Hefyd gofynasom am nifer y plant byddar a gefnogir[7] gan y gwasanaeth. Mae'r adran hon yn amlinellu ein dadansoddiad o'r ffigurau hyn o nifer y plant a gefnogir. Cafwyd problemau tebyg yma hefyd ynglŷn â'r cyfansymiau a roddir sy'n wahanol i'w gilydd, ac felly rydym wedi cyfrifo cyfanswm wedi'i addasu yma hefyd.

Yn seiliedig ar ymatebion gan 16 o wasanaethau, awgryma ein harolwg fod o leiaf 2,530 o blant byddar yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol (cyfanswm wedi'i addasu). Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad ar y llynedd pan adroddwyd bod 2,905 o blant byddar yn derbyn cefnogaeth.

Yn 2012, adroddasom ei bod wedi dod yn amlwg wrth ddadansoddi'r canlyniadau, bod rhai o'r gwasanaethau, er iddynt gael cyfarwyddyd i gynnwys ffigurau am blant â byddardod synwyrnerfol a byddardod dargludol parhaol yn unig, bod rhai o'r gwasanaethau wedi cynnwys ffigurau am blant â byddardod dros dro yn yr adran hon. O ganlyniad, nid oedd y ffigurau mor ddibynadwy ag y dylent fod. Er y teimlwn fod hyn yn llai o broblem eleni, mae'n dal i ddigwydd mewn rhai o ymatebion yr arolwg. Gall hyn esbonio, yn rhannol, pam yr ymddengys fod gostyngiad yn nifer y plant byddar a gefnogir gan wasanaethau.

Tabl 11: Ffigurau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar a gefnogir

| | **Cyfanswm a gynhyrchwyd** |
|---|---|
| **Cyfanswm wedi'i addasu** | 2,530 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am gyfanswm cyffredinol y plant** | 2,530 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, yn ôl oedran** | 2,529 |
| **Cyfanswm a roddwyd pan holwyd am nifer y plant, yn ôl lefel byddardod** | 2,511 |

Y nifer lleiaf o blant a gefnogir gan wasanaeth oedd 61 a'r uchaf oedd 1,051. Y cyfartaledd oedd 242.

### Beth a wyddom am boblogaeth y plant byddar a gefnogir?

Mae'r tablau isod yn dadansoddi'r canlyniadau yn ôl oedran, math o ddarpariaeth addysgol ac ardal.

[7] Rhoddwyd enghreifftiau o gymorth yn cynnwys dysgu uniongyrchol, ymweliadau â'r teulu neu'r ysgol, cysylltu â'r teulu, ysgol ac athrawon, darparu gwiriadau teclynnau clyw, ayb.

Tabl 12: Nifer y plant byddar a gefnogir, yn ôl grŵp oedran

| Grŵp oedran | Nifer y blant byddar | Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| **Plant cyn-ysgol** | 273 | 11% |
| **Plant oedran ysgol gynradd** | 1,390 | 55% |
| **Plant oedran ysgol gyfun** | 746 | 30% |
| **Pobl ifanc mewn chweched dosbarth a gynhelir (blwyddyn 12 i 13)** | 118 | 5% |
| **Pobl ifanc mewn addysg sydd wedi cwblhau blwyddyn 11 ond nad oeddynt mewn chweched dosbarth a gynhelir (e.e. maent mewn Coleg Addysg Bellach Cyffredinol, wedi'u cofrestru â darparwr hyfforddiant preifat, mewn cyflogaeth, ayb)** | >5 | >0.2% |
| **Cyfanswm (ble bo'n hysbys) (wedi'i addasu)** | **2,529** | |
| | | |
| **Nid yw'n hysbys** | 0 | |
| **Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys') (heb ei addasu)** (n=16) | **2,529** | |

Tabl 13: Nifer y plant byddar a gefnogir, yn ôl lefel byddardod

| Lefel byddardod | Nifer y plant byddar | Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| **Unochrol** | 259 | 10% |
| **Mân** | 849 | 34% |
| **Cymedrol** | 917 | 37% |
| **Difrifol** | 228 | 9% |
| **Llwyr** | 230 | 9% |
| **Cyfanswm (lle bo'n hysbys) (heb ei addasu)** | **2,483** | |
| | | |
| **Nid yw'n hysbys** | 28 | |
| **Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys') (heb ei addasu)** (n=16) | 2,511 | |

Gan dybio bod y ffigurau yn fras gymaradwy, os oes 2,904 o blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu) sy'n byw yng Nghymru, mae yna o leiaf 374 plentyn byddar sydd ddim yn cael eu cefnogi. Hynny yw, awgrymau'r ffigurau bod 87% o blant byddar yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol. Nid yw o anghenraid yn golygu nad yw 13% o blant byddar yn derbyn cymorth; mae'n bosib bod rhai ohonynt yn derbyn cymorth gan rywun arall, er enghraifft, ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar.

Cymhara'r tabl isod y gwahaniaeth canrannol rhwng pob grŵp oedran er mwyn gweld a oes unrhyw grŵp oedran penodol sy'n llai tebygol o dderbyn cymorth. Yn gyfrannol, mae pobl ifanc byddar dros 16 nad ydynt mewn chweched dosbarth a gynhelir, yn llai tebygol o dderbyn cefnogaeth na grwpiau oedran eraill; adroddodd 7 (44%) gwasanaeth nad oeddynt yn cefnogi unrhyw berson ifanc byddar ôl 16, tu allan i'r chweched dosbarth. Mewn rhai achosion, ymddengys nifer y plant a gefnogir yn uwch na nifer y plant sy'n byw yn yr ardal.

Tabl 14: Cymhariaeth rhwng nifer y plant byddar sy'n perthyn ac a gefnogir, yn ôl oedran

| Grŵp oedran | Nifer y plant byddar sy'n perthyn | Nifer y plant byddar a gefnogir | Cyfran o'r plant byddar a gefnogir yn ganran o'r plant byddar sy'n perthyn |
|---|---|---|---|
| **Cyn-ysgol** | 308 | 273 | 89% |
| **Ysgol Gynradd** | 1,630 | 1,390 | 85% |
| **Ysgol Gyfun** | 842 | 746 | 89% |
| **Pobl ifanc mewn chweched dosbarth a gynhelir (blwyddyn 12 i 13)** | 109 | 118 | 108% |
| **Pobl ifanc mewn addysg sydd wedi cwblhau blwyddyn 11 ond nad oeddynt mewn chweched dosbarth a gynhelir (e.e. maent mewn Coleg Addysg Bellach Cyffredinol, wedi'u cofrestru â darparwr hyfforddiant preifat, mewn cyflogaeth, ayb)** | 15 | >5 | >33% |
| **Cyfanswm heb gynnwys 'nid yw'n hysbys' (heb ei addasu)** | **2,904** | **2,529** | **87%** |

Tabl 15: Cymhariaeth rhwng nifer y plant byddar sy'n perthyn ac a gefnogir, yn ôl lefel byddardod

| Lefel byddardod | Nifer y plant byddar sy'n perthyn | Nifer y plant byddar a gefnogir | Cyfran o'r plant byddar a gefnogir yn ganran o'r plant byddar sy'n perthyn |
|---|---|---|---|
| **Unochrol** | 334 | 259 | 78% |
| **Mân** | 920 | 849 | 92% |
| **Cymedrol** | 1,061 | 917 | 86% |
| **Difrifol** | 281 | 228 | 81% |
| **Llwyr** | 286 | 230 | 80% |
| **Nid yw'n hysbys** | 17 | 28 | 164% |
| **Cyfanswm (heb ei addasu)** | **2,899** | **2,511** | **84%** |

Awgryma'r tabl uchod fod plant â byddardod difrifol neu lwyr yn llai tebygol o dderbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol na phlant â byddardod mân neu gymedrol.  Un rheswm pam nad yw nifer o blant â byddardod difrifol neu lwyr yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth o bosibl yw eu bod yn fwy tebygol o gael eu rhoi mewn darpariaeth arbenigol.  Mae hefyd yn bosib, er enghraifft, bod plant byddar â mewnblaniadau yn y cochlear yn derbyn llai o gymorth na phlant heb fewnblaniadau yn y cochlear, oherwydd newidiadau ymddangosiadol yn eu hanghenion unigol.  Nid oes ateb pendant i'r mater hwn, er y bydd gwasanaethau wedi gwneud eu harsylwadau eu hunain.

## Plant â byddardod dargludol dros dro

Gofynasom i wasanaethau a oeddynt hefyd yn cefnogi plant â byddardod dargludol dros dro ar wahân.  O'r 16 o wasanaethau a ymatebodd, cofnododd 12 (75%) eu bod nhw yn eu cefnogi ar wahân a 4 (25%) nad oeddynt. Wedyn gofynasom i'r gwasanaethau a gofnododd eu bod nhw'n darparu cefnogaeth ar wahân, faint o blant a gefnogir.  Darparodd 11 gwasanaeth ffigur (sy'n golygu bod un gwasanaeth sydd yn cefnogi plant â byddardod dros dro heb ddarparu ffigur).  Mae yna 425 o blant â byddardod dros dro a gefnogir gan wasanaethau yr oedd y gwasanaethau'n gallu dweud wrthym amdanynt.

Rhestra atodiad B ymatebion unigol gan wasanaethau i'r cwestiwn hwn.

## Sut mae ffigurau CRIDE 2013 yn cymharu â ffigurau gan ffynonellau eraill?

O achos y gwahaniaethau yn y modd y casglwyd data a'r gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir, mae defnyddio gofal wrth gymharu ffigurau CRIDE â ffynonellau eraill yn angenrheidiol. Awgryma

CRIDE y defnyddir y ffigurau hyn fel sylfaen ar gyfer dadl a dadansoddiad pellach, yn hytrach nag er mwyn ffurfio canlyniadau pendant.

*CRIDE 2011* a *2012*
Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud unrhyw gymariaethau ag adroddiadau CRIDE 2011 a 2012 oherwydd y gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau, yn ogystal â rhai newidiadau a gwelliannau i'r cwestiynau a ofynnir trwy'r blynyddoedd.

Nifer y plant byddar sy'n perthyn a gofnodir eleni gan CRIDE yw 2,904, sydd yn gynnydd o 2,743 yn 2012 a 2,755 yn 2011.

*Cyfrifiad Ysgolion*
Adrodda arolwg CRIDE 2013 fod 2,472 o blant byddar oedran ysgol yng Nghrymu. Ni chynhwysir yn y ffigur hwn addysg cyn-ysgol nac addysg ôl-16. Er hynny, awgryma Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2012/13 fod 2,081 o ddisgyblion sydd â 'nam ar y clyw' fel prif AAA a'u bod yn derbyn cymorth trwy'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â datganiad AAA[8]. Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r plant hyn yn blant oedran ysgol; o'r cyfanswm hwn, cofnodir bod 9 mewn meithrinfeydd a gynhelir, sydd yn gadael 2,072 plentyn oedran ysgol byddar. Felly awgryma'r Cyfrifiad Ysgol gynnydd o 7.2% ers blwyddyn academaidd 2011/12 pan oedd ffigur cyfatebol yn 1,933[9].

O'r 2,072 o blant oedran ysgol a gofnodir yn y Cyfrifiad Ysgolion fel rhai â nam ar y clyw fel prif AAA, 342 ohonynt sydd â datganiad. Daw hyn i 16.5% o'r plant a'u hadnabuwyd gan y Cyfrifiad Ysgol a 13.8% o blant oedran ysgol a'u hadnabuwyd gan CRIDE.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd bellach yn darparu data ar nifer y plant mewn ysgolion a gynhelir lle y cofnodir nam ar y clyw yn AAA eilaidd[10]. Yn 2013, bu'r ffigur hwn yn 614. O ganlyniad, cofnododd y Cyfrifiad Ysgolion gyfanswm o 2,695 o blant a nam ar y clyw yn y flwyddyn academaidd 2012/13. Mae hyn yn cynnwys nifer amhendant o blant mewn meithrinfeydd a gynhelir[11].

I gloi, mae yna 122 o blant ychwanegol sydd â namau amlsynnwyr yng Nghymru (naill ai yn brif angen neu'n angen eilaidd)[12]. Daw hyn â'r cyfanswm o blant byddar yng Nghymru i 2,817 wedi'u cofnodi gan y Cyfrifiad Ysgol.

---

[8] Data ar gael yn http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?skip=1&lang=cy
Mae data'r Cyfrifiad Ysgol yn seiliedig ar ddatganiadau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) gan ysgolion ar draws Cymru. Felly, ni chynhwysa'r data plant sy'n mynychu ysgol arbennig tu allan i Gymru neu sydd yn derbyn addysg yn y cartref. Cynhwysir plant sydd ar Weithredu gan yr Ysgol , Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â Datganiad. Cynhwysa'r ffigur un disgybl sy'n mynychu ysgol annibynnol ac sydd â datganiad, ond ni ddarpara'r set ddata wybodaeth parthed a oes unrhyw blant byddar a all fod yn mynychu ysgol annibynnol heb Ddatganiad.
[9] Cyfrifiad Ysgolion Llywodraeth Cymru, 2011: Canlyniadau terfynol, Tabl 8.13, ar gael yn http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy
[10] Er hynny, dylid nodi y darperir gwybodaeth am anghenion eilaidd gan ysgolion yn wirfoddol. Dylid nodi hefyd na chesglir gwybodaeth am anghenion tu hwnt i anghenion eilaidd.
[11] Nid yw'n bosib adnabod faint o'r rheini sydd yn cyfateb i ddisgyblion meithrin ond, yn seiliedig ar ffigurau a rhoddwyd yn gynharach, nid yw'n afresymol i dybio ei bod yn gymharol isel.
[12] Cyfateba'r ffigur hwn i'r nifer o blant mewn ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir.

## RHAN 3: Athrawon Plant Byddar

Holodd ein harolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig a'r rheini sy'n gweithio mewn darpariaeth adnoddau. Mynega'r ffigurau fel swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner "wythnos waith" safonol.

Cyfanswm y swyddi Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yw o leiaf 71.5 (CALl). O'r rheini, llenwir 89% gan Athrawon Plant Byddar cymwysedig. Yn ogystal, pan gyflawnwyd yr arolwg, roedd 3 swydd wag CALl.

O ychwanegu'r swyddi gwag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, ymddengys fod o leiaf 74.5 swydd Athrawon Plant Byddar, gyda 4% ohonynt yn wag.

Tabl 16: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol

| | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol** | 66.5 | 93% |
| **Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd** | 5 | 7% |
| **Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** (n=16) | **71.5** | |

Tabl 17: Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar yn gyffredinol

| | | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **Swyddi gwag** | **Swydd wedi'i gohirio** | 0 | 0% |
| | **A hysbysebir ar hyn o bryd** | 2 | 67% |
| | **A hysbysebwyd ond nad oedd ymgeisydd addas** | 1 | 33% |
| **Cyfanswm** (n=16) | | **3** | |

Mae'r ffigur o 74.5 swydd yn agos at y ffigur o 76 swydd a gofnodwyd yn arolwg CRIDE 2010-11, sy'n ein harwain at y casgliad mai anghysondeb oedd y ffigur o 100.50 o swyddi a gofnodwyd yn arolwg 2011-12. Mae anghysondebau yn y ffigurau a gofnodwyd yn parhau i fod yn bryder inni ac felly dylid defnyddio'r ffigurau â gofal.

Tabl 18: Nifer yr Athrawon Plant Byddar (CALl), fesul blwyddyn

| | **2013** | **2012** | **2011** |
|---|---|---|---|
| **Gyda'r cymhwyster gorfodol (CG) (wedi'i gyflawni a'i ardystio)** | 66.5 | 91.75 | 71.95 |
| **O dan hyfforddiant ar gyfer y CG neu yn bwriadu hyfforddi o fewn 3 blynedd** | 5 | 8.8 | 2 |
| **Athrawon cymwysedig heb y CG ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 0 | 0 | 2 |
| **Swyddi gwag - swyddi wedi'u gohirio** | 0 | 0 | 0 |
| **Swyddi gwag – a hysbysebir ar hyn o bryd** | 2 | 0 | 0 |
| **Swyddi gwag – a hysbysebwyd ond nad oedd ymgeisydd addas** | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 74.5 | 100.55 | 75.95 |
| **Cyfanswm mewn swydd** | 71.5 | 100.55 | 75.95 |
| **Cyfanswm swyddi gwag** | 3 | 0 | 0 |

Ymdrinnir yr adrannau isod yn fwy manwl â nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn swydd beripatetig neu mewn darpariaeth adnoddau.

### Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig

Gofynnodd ein harolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a weithiai yn y gwasanaeth peripatetig arbennig o Ionawr 2013. Hynny yw, faint o Athrawon Plant Byddar "gwadd" a weithiai ym mhob gwasanaeth. Yn arferol ymwêl Athrawon Plant Byddar gwadd â phlant byddar mewn darpariaeth "anarbenigol" - h.y. plant byddar cyn-ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nad yw ar gyfer plant byddar yn benodol.

Tabl 19: Nifer yr Athrawon Plant Byddar gwadd mewn cyflogaeth

| | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol** | 39.2 | 16 |
| **Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd** | 3 | 3 |
| **Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** (n=16) | **42.2** | |

Tabl 20: Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar gwadd gwag

| | | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALl)** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|
| **Swyddi gwag** | **Swydd wedi'i gohirio** | 0 | 0 |
| | **A hysbysebir ar hyn o bryd** | 1 | 1 |
| | **A hysbysebwyd ond nad oedd ymgeisydd addas** | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** (n=2) | | **2** | |

Yn nhermau Athrawon Plant Byddar cymwysedig gwadd sydd â'r cymhwyster gorfodol, roedd y ffigurau o fewn pob gwasanaeth o 0.5 i 6.1 (CALl). Nifer cyfartalog yr Athrawon Plant Byddar gwadd (sydd â'r cymhwyster gorfodol) ym mhob gwasanaeth yw 2.4 (CALl).

Cyfloga 10 (63%) gwasanaeth 2 Athro Plant Byddar gwadd neu lai, gyda 4 o'r gwasanaethau hyn (25%) yn cyflogi 1 Athro Plant Byddar gwadd neu lai.

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer eu Hathrawon Plant Byddar a oedd â chymhwyster mewn Iaith Arwyddion Prydain. O'r 44.2 Athro Plant Byddar a weithiai i wasanaethau peripatetig, darparodd gwasanaethau wybodaeth am 44.

Tabl 21: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain sydd gan Athrawon Plant Byddar mewn gwasanaethau peripatetig

| | **Athrawon Plant Byddar mewn gwasanaethau peripatetig** |
|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 2 (5%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 22 (50%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 19 (43%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 3 (7%) |
| **Cyfanswm** | 44 |

Gofynnir i wasanaethau a allent ddarparu cymorth Athro Plant Byddar peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y gofyn.

Tabl 22: Nifer y gwasanaethau a allent ddarparu cymorth Athro Plant Byddar peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg

| | **Athrawon Plant Byddar mewn gwasanaethau peripatetig** |
|---|---|
| **Ie** | 9 (56%) |
| **Na** | 7 (44%) |
| **Cyfanswm** | 16 |

Gofynasom i wasanaethau a oeddynt wedi ceisio cyflogi Athrawon Plant Byddar dros y 12 mis diwethaf. O'r 7 a oedd wedi ceisio, awgrymodd 2 (29%) eu bod wedi cael anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol. Gofynasom hefyd a oeddynt wedi ceisio sicrhau digon o athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. O'r 9 a awgrymodd eu bod wedi ceisio, dywedodd 4 (44%) eu bod wedi cael anawsterau wrth sicrhau digon o athrawon llanw.

**Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau**

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar ac a'u cyflogir yn ganolog gan yr awdurdod lleol neu yn uniongyrchol gan yr ysgol. Gofynnir i ymatebwyr am beidio â chynnwys unrhyw amser a dreulir yn cyflawni dyletswyddau ysgol eraill (e.e. amser yn gweithio fel cydlynydd AAA'r ysgol).

Tabl 23: Nifer Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol

| | **Nifer yr athrawon (CALI) mewn darpariaeth adnoddau a gyflogir gan yr awdurdod lleol** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | | **Nifer yr athrawon (CALI) mewn darpariaeth adnoddau a gyflogir gan yr ysgol** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol** | 13.1 | 6 | | 14.2 | 6 |
| **Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd** | 0 | 0 | | 2 | 2 |
| **Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant** | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** (n=11) | **13.1** | | | **16.2** | |

Tabl 24: Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar gwag mewn darpariaethau adnoddau a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol

| | | **Nifer yr athrawon (CALI) mewn darpariaeth adnoddau a gyflogir gan yr awdurdod lleol** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | | **Nifer yr athrawon (CALI) mewn darpariaeth adnoddau a gyflogir gan yr ysgol** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddi gwag** | **Swydd wedi'i gohirio** | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| | **A hysbysebir ar hyn o bryd** | 0 | 0 | | 1 | 1 |
| | **A hysbysebwyd ond nad oedd ymgeisydd addas** | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** (n=11) | | **0** | | | **1** | |

Tabl 25: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain sydd gan Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau

| | **Athrawon Plant Byddar a gyflogir gan yr awdurdod lleol** | | **Athrawon Plant Byddar a gyflogir gan yr ysgol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 1 | | 1 | 2 (7%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 5 | | 5 | 10 (35%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 4 | | 10 | 14 (48%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu Uwch** | 1 | | 2 | 3 (10%) |
| **Cyfanswm** | 11 | | 18 | 29 (100%) |

Golyga hyn fod o'r 29 Athro Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau y mae gennym ddata amdanynt, 35% oedd ag Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1, 48% oedd ag Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2, 10% oedd ag Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch, ac nad oedd gan 7% unrhyw gymhwyster Iaith Arwyddion Prydain.

Tabl 26: Nifer y gwasanaethau a allant ddarparu cymorth Athro Plant Byddar trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn darpariaeth adnoddau yn ôl y gofyn

| | **Athrawon Plant Byddar a gyflogir gan yr awdurdod lleol** | | **Athrawon Plant Byddar a gyflogir gan yr ysgol** |
|---|---|---|---|
| **Ie** | 1 | | 4 |
| **Na** | 5 | | 2 |
| **Cyfanswm** | 6 | | 6 |

## RHAN 4: Staff arbenigol eraill

Awgryma ein harolwg fod o leiaf 83.4 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am Athrawon Plant Byddar, sy'n cefnogi plant byddar yng Nghymru, naill ai mewn swydd beripatetig neu yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau.  Y swydd fwyaf cyffredinol yw cynorthwyydd addysgu, ac wedyn gweithiwr cefnogi cyfathrebu.

Tabl 27: Nifer y staff cymorth arbenigol yn gyffredinol, yn ôl swydd

| | **Nifer y staff (CALl)** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb** | 68.9 | 83% |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb** | 10 | 12% |
| **Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb** | 0 | 0% |
| **Awdiolegwyr addysgol / Technegwyr ayb** | 1.5 | 2% |
| **Therapyddion Lleferydd ac Iaith** | 2.5 | 3% |
| **Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt** | 0 | 0% |
| **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar** | 0.5 | 1% |
| | | |
| **Cyfanswm** | **83.4** | |

Mae nifer y staff arbenigol wedi cynyddu yn gyffredinol o 81.5 yn 2011/12, sy'n golygu cynnydd o 2%.  Dadansodda'r tabl nesaf nifer y staff arbenigol arall yn ôl sut y'u cyflogir.

### Nifer y staff arbenigol arall

Gofynnodd yr arolwg am y nifer o staff cymorth arbenigol arall, yn ôl a'u cyflogir mewn swydd beripatetig neu a weithient mewn darpariaeth adnoddau

Tabl 28: Nifer y staff cymorth arbenigol peripatetig, yn ôl swydd

| | Swydd beripatetig | | | | Darpariaethau adnoddau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | **Canran o'r Cyfanswm** | | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas** | **Canran o'r Cyfanswm** |
| **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb** | 18.3 | 7 | 80% | | 50.6 | 10 | 83% |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb** | 1 | 1 | 4.7% | | 9 | 2 | 15% |
| **Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb** | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| **Awdiolegwyr addysgol / Technegwyr ayb** | 1.5 | 2 | 7% | | 0 | 0 | 0% |
| **Therapyddion Lleferydd ac Iaith** | 1.5 | 2 | 7% | | 1 | 1 | 2% |
| **Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt** | 0 | 0 | 0% | | 0 | 0 | 0% |
| **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar** | 0.5 | 1 | 2% | | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **22.8** | | | | **60.6** | | |

Cadarnha'r tabl uchod bod bron hanner cymaint o staff arbenigol eraill yn cael eu cyflogi mewn darpariaethau adnoddau ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir am gynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth cyfathrebu, er bod awdiolegwyr addysgol, therapyddion lleferydd ac iaith yn dal i gael eu cyflogi mewn swyddi peripatetig gan amlaf.

Gofynnir i wasanaethau am y cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain a oedd gan y staff arbenigol. Ni ddarparodd pob gwasanaeth y data hwn, a darparodd rhai gwasanaethau'r data yn CALl tra ymddengys bod eraill wedi darparu'r data yn ôl nifer y bobl, felly mae yna gwestiwn o ba mor ddibynadwy yw'r data.

Tabl 29: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain sydd gan staff arbenigol

| | **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb** | **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb** | **Awdiolegwyr addysgol / Technegwyr ayb** | **Therapyddion lleferydd ac iaith** | **Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 1 | 0 | 0.5 | 0 | 0 | 1.5 (7%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 4 | 0 | 1 | 0.5 | 0 | 5.5 (26%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 11 | 1 | 0 | 1 | 0 | 13 (62%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 (5%) |
| **Cyfanswm** | 17 | 1 | 1.5 | 1.5 | 0 | 21 |

Gofynnir i wasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y gofyn.

Tabl 30: Nifer y gwasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg

| | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| **Cynorthwywyr addysgu yn unig** | 1 (7%) |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu yn unig** | 1 (7%) |
| **Cynorthwywyr addysgu a Gweithwyr cymorth cyfathrebu** | 1 (7%) |
| **Heb gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg** | 11 (79%) |
| **Cyfanswm** | 14 |

Gofynasom hefyd a yw gwasanaethau'n rheoli cynorthwywyr addysgu neu staff cymorth arall sy'n gweithio mewn ysgolion er mwyn rhoi cymorth i blant penodol.  O'r 129 o wasanaethau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dywedodd 28 (22%) ie, dywedodd 10 (8%) eu bod yn rheoli rhai ohonynt, a dywedodd y mwyafrif, 91 (71%), nad oeddynt yn eu rheoli.

## Darpariaethau adnoddau

Gofynnir i wasanaethau am y cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain oedd gan staff arbenigol. Ni ddarparodd pob gwasanaeth y data hwn, a darparodd rhai gwasanaethau'r data yn CALl tra ymddengys bod eraill wedi darparu'r data yn ôl nifer y bobl, felly mae yna gwestiwn o ba mor ddibynadwy y mae'r data. Hefyd, datganodd rhai gwasanaethau fod ganddynt staff arbenigol penodol yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau, ond ni ddarparasant ddata ar lefelau eu cymwysterau, felly dylid defnyddio'r data hwn â gofal.

Tabl 31: Cymwysterau Iaith Arwyddion Prydain sydd gan staff arbenigol mewn darpariaethau adnoddau

| | **Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb** | **Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb** | **Therapyddion lleferydd ac iaith** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Heb gymhwyster** | 5.5 | 0 | 0 | 5.5 (10%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1** | 14.5 | 0 | 0 | 14.5 (26%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 2** | 25.5 | 4 | 0 | 29.5 (53%) |
| **Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3 neu uwch** | 4 | 2 | 0 | 6 (11%) |
| **Cyfanswm** | 49.5 | 6 | 0 | 55.5 |

Gofynnwyd i wasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn darpariaethau adnoddau, yn ôl y gofyn.  Ni chafwyd ateb gan un o'r gwasanaethau sydd â darpariaeth adnoddau i'r cwestiwn hwn.

Tabl 32: Nifer y gwasanaethau a allent ddarparu cymorth cynorthwywyr addysgu a chymorth gweithwyr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg

| | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| **Cynorthwywyr addysgu yn unig** | 2 (20%) |
| **Gweithwyr cymorth cyfathrebu yn unig** | 2 (20%) |
| **Cynorthwywyr addysgu a Gweithwyr cymorth cyfathrebu** | 0 (0%) |
| **Heb gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg** | 6 (60%) |
| **Cyfanswm** | 10 |

Pan holwyd a ddarparodd y ddarpariaeth adnoddau allgymorth i ysgolion eraill, atebodd 2 (22%) eu bod nhw yn ei darparu ac atebodd 7 (78%) nad oeddynt yn ei darparu.  Ni atebodd un o'r gwasanaethau y cwestiwn hwn.

Lle y darperir allgymorth, daeth hyn i amser staff 0.6 CALl ar draws pob gwasanaeth a ymatebodd. Gall y ffigur hwn fod yn uwch; ni ddarparodd rhai gwasanaethau atebion i'r ddau gwestiwn yma.

# RHAN 5: Meini prawf cymhwysedd a threfniadau ariannu

## Meini prawf cymhwysedd

Parha'r mwyafrif o wasanaethau i ddefnyddio'r Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSIP) i'w helpu i benderfynu pa lefel o gymorth y dylai plant byddar ei derbyn. Mae'r gyfran o wasanaethau sy'n defnyddio meini prawf NatSIP wedi cynyddu o 72% yn 2011/12 i 81% yn 2012/13.

Tabl 33: Meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar lefel y cymorth i blant byddar

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Meini prawf "NatSIP"**[13] | 13 | 81% |
| **Datblygir y meini prawf yn lleol gan mwyaf** | 2 | 13% |
| **Arall** | 1 | 6% |
| **Cyfanswm** (n=16) | 16 | |

Gofynnwyd i wasanaethau a ddywedodd eu bod yn defnyddio meini prawf "arall" i roi manylion am y meini prawf a ddefnyddir. Ni restrwyd unrhyw feini prawf eraill gan unrhyw wasanaeth, heblaw'r gwasanaeth a ddywedodd ei fod am ddefnyddio meini prawf NatSIP yn y dyfodol. Rhestra atodiad B ymatebion unigol y gwasanaethau i'r cwestiwn hwn.

Holodd yr arolwg hefyd am wybodaeth gyffredinol am y math o wasanaeth a ddarperir ar gyfer gwahanol gategorïau o blant a phobl ifanc byddar. Cydnabuwyd y gall hyn ond bod yn amcan bras o'r gwasanaethau a ddarperir, ac y pennir y cymorth a ddarperir i blant unigol gan ystod o ffactorau yn cynnwys barn broffesiynol, ac nid yn ôl gradd a math o fyddardod yn unig. Roedd yn bosib i wasanaethau ddewis mwy nag un opsiwn ar gyfer pob grŵp o blant byddar.

13 Diweddarwyd meini prawf NatSIP yn ystod lansiad yr arolwg hwn. Adeiladir ar Feini Prawf Cymhwysedd Diwygiedig SESIP/SERSEN (2009), sydd, yn eu tro, yn seiliedig ar Feini Prawf Cymhwysedd SERSEN (2005)

Tabl 34: Math o gefnogaeth a ddarperir yn ôl lefel byddardod

| Math o angen | Math o fyddardod | Nifer y gwasanaethau nad ydynt yn darparu unrhyw gymorth uniongyrchol | Nifer y gwasanaethau sy'n darparu ymweliad blynyddol, un-tro neu achlysurol | Nifer y gwasanaethau sy'n darparu Athro Plant Byddar dynodedig ac ymweliadau rheolaidd (h.y. mwy nag unwaith y flwyddyn) | Nifer y gwasanaethau heb gynnig ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif angen parhaol** | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol difrifol neu lwyr | 0 | 0 | 16 | 1 |
| | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol cymedrol | 0 | 1 | 16 | 1 |
| | Byddardod dargludol dwyochrol | 1 | 4 | 13 | 1 |
| | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol mân neu amledd uchel yn unig | 0 | 5 | 13 | 1 |
| | Byddardod unochrol (synwyrnerfol neu ddargludol) | 1 | 8 | 11 | 1 |
| **Angen ychwanegol a pharhaol** | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol difrifol neu lwyr | 0 | 1 | 15 | 1 |
| | Byddardod synwyrnerfol dwyochrol cymedrol | 0 | 1 | 15 | 1 |
| | Byddardod dargludol dwyochrol | 0 | 7 | 11 | 1 |
| **Arall** | Â byddardod dargludol dros dro fel prif angen neu angen ychwanegol | 3 | 6 | 7 | 1 |
| | Mewn ysgolion arbennig heblaw ysgolion ar gyfer plant byddar | 3 | 1 | 13 | 1 |
| | Â niwropatheg clywedol | 3 | 1 | 10 | 3 |
| | Ag anhwylder / anhawster prosesu clywedol | 5 | 4 | 6 | 2 |
| n=16 | | | | | |

Tabl 35: Newidiadau i feini prawf yn y gwasanaeth rhwng 2011/12 a 2012/13

| | Nifer y gwasanaethau | Canran o'r gwasanaethau |
|---|---|---|
| **Newidiadau sy'n golygu bod rhai plant / pob plentyn byddar bellach yn derbyn mwy o gymorth** | 1 | 6% |
| **Newidiadau sy'n golygu bod rhai plant / pob plentyn byddar bellach yn derbyn llai o gymorth** | 2 | 12% |
| **Dim newidiadau** | 14 | 82% |
| **Cyfanswm (n=16)** | 124 | |

Oherwydd newidiadau i'r ffordd yr oedd y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw'n bosib gwneud cymariaethau.

Lle yr oedd newidiadau yn cael eu nodi, gofynnwyd i wasanaethau ddarparu gwybodaeth ar yr hyn a oedd wedi newid:

- Staff cymorth yn dod yn fwy cyffredinol oherwydd newidiadau mewn meini prawf.
- Cynnydd mewn hyfforddiant i ysgolion er mwyn datblygu annibyniaeth a dealltwriaeth am fyddardod mewn ysgolion er mwyn cynnig cymorth i blant â byddardod mân ac unochrol.
- Cynnydd yn nifer y plant â byddardod dargludol, a rhestrau aros hir am romedau yn arwain at nifer uwch o blant yn derbyn cymorth.

## Defnyddio safonau ansawdd ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir

Gofynnwyd i wasanaethau nodi pa safonau ansawdd a ddefnyddir ganddynt er mwyn adolygu datblygiad y gwasanaeth. Roedd yn bosib i wasanaethau ddewis mwy nag un opsiwn.

Tabl 36: Defnyddio safonau ansawdd er mwyn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir neu er mwyn datblygu'r gwasanaeth

| | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| **BATOD, NDCS a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID - Action on Hearing Loss bellach): Quality standards: Specialist teaching and support services for deaf children and young people (2009)**[14] | 12 |
| **Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (bellach Yr Adran Addysg) (Lloegr): Quality standards for special educational needs (SEN) support and outreach services (2008)**[15] | 4 |
| **Safonau ansawdd rhaglen sgrinio clyw babanod** | 7 |
| **Safonau eraill** | 5 |
| **n=16** | |

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu manylion am ba safonau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt. Y safonau eraill mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd atynt oedd:

- Safonau ansawdd eraill NDCS (fel ar systemau FM)
- Safonau Ansawdd ar gyfer Clywedeg Pediatrig Llywodraeth Cymru
- Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Cynnal Nam ar y Synhwyrau Llywodraeth Cymru

## Trefniadau ariannu – gwasanaethau peripatetig

Yn nhermau trefniadau ariannu, ymddengys bod mwyafrif y gwasanaethau cymorth arbennig peripatetig wedi'i ariannu'n ganolog gan yr awdurdod lleol, fel y dengys isod. Ymddengys cynydd o 71% yn 2010/11.

Tabl 37: Trefniadau ariannu ar gyfer gwasanaethau cymorth arbennig peripatetig

| A yw'r cyllid... | Nifer y gwasanaethau | Canran o'r gwasanaethau a ymatebodd |
|---|---|---|
| **Wedi'i reoli'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol (yn cynnwys arian a reolir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth clyw gan Awdurdodau Lleol eraill, neu asiantaethau allanol e.e. SENSE)** | 13 | 87% |
| **Wedi'i ddirprwyo i ysgol arbennig neu ysgol prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau sydd wedyn yn darparu allgymorth i ysgolion eraill** | 0 | 0% |
| **Wedi'i ddirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion unigol o fewn yr ALl sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r ALl** | 0 | 0% |
| **Wedi'i ddirprwyo'n rhannol i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r Awdurdod Lleol (e.e. "gwasanaethau a fasnachir" ar gyfer disgyblion heb ddatganiad)** | 0 | 0% |
| **Arall** | 2 | 13% |
| **Cyfanswm (n=15)** | **130** | |

Awgryma ymatebion yn y categori 'arall' ryw fath o gyfuniad o'r opsiynau blaenorol, neu fod y cyllid wedi'i ddosbarthu i awdurdod sy'n ei dderbyn, neu brosesau sy'n newid.

---

[14] Gweler http://www.ndcs.org.uk/professional_support/our_resources/index.html (Saesneg yn unig)
[15] Gweler: https://www.education.gov.uk/publications/standard/publicationDetail/Page1/DCSF-00582-2008 (Saesneg yn unig)

## Trefniadau ariannu - darpariaethau adnoddau

Gofynnodd CRIDE hefyd am wybodaeth ar drefniadau ariannu ar gyfer darpariaethau adnoddau. Awgrymodd 11 gwasanaeth (65%) fod darpariaethau adnoddau yn eu hardal.

Tabl 38: Trefniadau ariannu ar gyfer darpariaethau adnoddau

| A yw'r cyllid ar gyfer darpariaeth adnoddau... | Nifer y gwasanaethau | Canran o'r rheini, lle bo'n berthnasol |
|---|---|---|
| Wedi'i reoli'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol | 3 | 30% |
| Wedi'i ddirprwyo i ysgolion | 6 | 60% |
| Wedi'i reoli'n ganolog ac wedi'i ddirprwyo | 1 | 10% |
| **Cyfanswm yr ymatebion** | **10** | |

Ni ddarparodd un o'r gwasanaethau ateb i'r cwestiwn hwn. Mae mwyafrif y darpariaethau adnoddau yn parhau i gael eu dirprwyo i ysgolion. Mae hyn yn unol â chanfyddiadau 2011/12.

Tabl 39: Defnydd cytundebau lefel gwasanaeth gan ddarpariaethau adnoddau

| Os yw'r cyllid wedi'i ddirprwyo, a oes cytundeb / cytundeb lefel gwasanaeth ar waith? | Nifer y gwasanaethau | Canran o'r rheini, lle bo'n berthnasol |
|---|---|---|
| Oes | 3 | 43% |
| Nag oes | 4 | 57% |
| **Cyfanswm** | **7** | |

## Newidiadau staffio

Yng nghyd-destun pryderon am ostyngiadau mewn gwariant, gofynnodd yr arolwg am wybodaeth am newidiadau cynlluniedig rhwng 2011/12 a 2012/13 ar gyfer hyfforddiant neu gyfarpar, er enghraifft.

Tabl 40: Newidiadau cyllidebol

| | Mwy o gyllideb | Llai o gyllideb | Dim newid i'r gyllideb | Nid yw'n hysbys / methu gwahanu cyllideb y Tîm Nam ar y Clyw |
|---|---|---|---|---|
| **Staffio** | 0 (0%) | 1 (7%) | 11 (73%) | 3 (20%) |
| **Hyfforddi** | 1 (7%) | 0 (0%) | 8 (53%) | 6 (40%) |
| **Cyfarpar** | 0 (0%) | 1 (7%) | 9 (60%) | 5 (33%) |
| **Arall** | 0 (0%) | 1 (7%) | 9 (60%) | 5 (33%) |

Gofynnir i wasanaethau hefyd a oedd unrhyw newididau arfaethedig i'r gyllideb rhwng 2012/13 a 2013/14.

Tabl 41: Newidiadau arfaethedig i'r gyllideb

| | Mwy o gyllideb | Llai o gyllideb | Dim newid i'r gyllideb | Nid yw'n hysbys / methu gwahanu cyllideb y Tîm Nam ar y Clyw |
|---|---|---|---|---|
| **Staffio** | 2 (22%) | 0 (0%) | 7 (78%) | 0 (0%) |
| **Hyfforddi** | 1 (7%) | 0 (0%) | 7 (78%) | 0 (0%) |
| **Cyfarpar** | 0 (0%) | 0 (0%) | 10 (100%) | 0 (0%) |
| **Arall** | 0 (0%) | 0 (0%) | 10 (100%) | 0 (0%) |

## RHAN 6: Sylwadau i gloi

1. Mae arolwg CRIDE yn dal i ddangos anghysondeb eang rhwng nifer y plant byddar a gefnogir gan wasanaethau a nifer y plant a gofnodir ar y Cyfrifiad Ysgol fel rhai sy'n derbyn cymorth trwy'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â datganiad. Parha rhai gwasanaethau i gael anawsterau i ddarparu data dibynadwy yn eu hatebion i'r arolwg hwn. Ni ddywedir hyn er mwyn difrïo gwasanaethau ond er mwyn cydnabod cymhlethdod y dasg, cyfyngiadau ar yr hyn maent yn gallu ei gyflawni a'r diffyg offer addas a chyfredol (e.e. cronfeydd data) hyn oll yn ei gwneud yn anodd delio â cheisiadau fel hyn. Gan fod setiau data dibynadwy mor hanfodol bwysig i hysbysu cynllunio a chomisiynu, mae hyn yn bryder. O fewn CRIDE mae yna gonsensws barn y byddai mwy o gyd-drefniant canolog a gwell setiau data yn cefnogi awdurdodau lleol i allu ymateb i geisiadau megis y rheiny oddi wrth CRIDE yn haws. Ymhen amser, byddai hyn yn lleihau'r baich biwrocratig ar wasanaethau.

2. Ymddengys bod nifer yr Athrawon Plant Byddar yng Nghymru ar hyn o bryd yn weddol sefydlog, gyda lleihad bach o 1.5 swydd CALl rhwng 2010/11 a 2012/13. Mae'n debyg bod nifer yr Athrawon Plant Byddar a gofnodwyd yn arolwg 2011-12 yn anghysondeb.

3. Mae'r cynnydd bach mewn staff cymorth arbenigol i'w groesawu. Ni ymddengys yr un lleihad yn nifer yr Athrawon Plant Byddar ag sy'n digwydd yn Lloegr.

4. Mae yna bryder am ddiffyg darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig gan staff cymorth arbenigol. Er bod sefyllfa cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg gan Athrawon Plant Byddar ychydig yn well, mae hi'n dal yn bryder na all 44% o wasanaethau ddarparu cymorth Athro Plant Byddar peripatetig. Hefyd mae yna anawsterau mewn sawl agwedd ar recriwtio, yn cynnwys sicrhau athrawon llanw. Ni allai 11 o'r 14 gwasanaeth a ymatebodd ddarparu cymorth cynorthwyydd addysgu a chymorth gweithiwr cymorth cyfathrebu peripatetig trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn darpariaeth adnoddau, nid oedd yr un gwasanaeth yn gallu darparu cymorth cynorthwyydd addysgu a chymorth gweithiwr cymorth cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## RHAN 7: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Mae cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), Ear Foundation, Sefydliad Ewing, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS), Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSIP), Frank Barnes School for Deaf Children, Mary Hare School, Bwrdeistref Llundain Barnet, Coleg Prifysgol Llundain, a Phrifysgol Dinas Llundain.

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Defnyddiwyd adborth am wasanaethau yn arolwg 2012 a gwersi a ddysgwyd o'r dadansoddi i hysbysu gwelliannau i arolwg 2013.

Dosbarthwyd arolwg Cymru i wasanaethau ledled Cymru ar neu o amgylch Mawrth 26 2013 gan NDCS ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn Mai 17 2013. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltodd aelodau CRIDE â gwasanaethau trwy e-bost a ffôn. Yn dilyn hyn, yn gam olaf, anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'r gweddill nad oeddynt wedi ymateb erbyn Gorffennaf 29ain 2013.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

Tabl 42: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaeth

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – Mai 17eg 2013 | 9 | 9 |
| Yr ail ddyddiad cau, ar ôl cyswllt gan aelodau CRIDE | 7 | 16 |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 1 | 17 |

Ymgymerodd NDCS â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffwn ddiolch i'r holl wasanaethau a gymerodd amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr a ddefnyddir i hysbysu cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil ac i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â professionals@ndcs.org.uk.

## Atodiad A: Nifer y plant byddar sy'n perthyn, yn ôl gwasanaeth

Amlinellir y tabl hwn wybodaeth unigol gan wasanaethau. Eglurwyd bwriad CRIDE i gyhoeddi'r data hwn i wasanaethau pan y'u gofynnir i gwblhau'r arolwg. Bwriad CRIDE yw ehangu cyhoeddiad data gwasanaethau unigol yn y dyfodol.

| Gwasanaeth | Lefel byddardod | | | | | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Unochrol | Mân | Cymedrol | Difrifol | Llwyr | Nid yw'n hysbys | |
| Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen | 77 | 463 | 371 | 72 | 67 | * | 1,055** |
| Pen-y-bont | 26 | 50 | 61 | 24 | 11 | 12 | 184 |
| Caerdydd | 40 | 53 | 106 | 32 | 36 | 0 | 267 |
| Sir Gaerfyrddin | 15 | 17 | 31 | 10 | 18 | 0 | 91 |
| Ceredigion | 8 | 18 | 27 | 9 | 5 | 0 | 67 |
| Conwy | * | 12 | 33 | 8 | 5 | * | 65** |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 9 | 16 | 36 | 19 | 9 | 0 | 89 |
| Ynys Môn a Gwynedd | 15 | 51 | 57 | 9 | 24 | * | 160** |
| Merthyr Tydfil | * | 39 | 16 | 5 | 5 | 0 | 70** |
| Castell-nedd Port Talbot | 24 | 21 | 39 | 14 | 17 | * | 120** |
| Sir Benfro | 12 | 10 | 25 | 8 | 10 | 0 | 65 |
| Powys | 26 | 66 | 43 | 10 | 9 | 0 | 154 |
| Rhondda Cynon Taf | 15 | 40 | 90 | 18 | 23 | 0 | 186 |
| Abertawe | 14 | 10 | 30 | 18 | 24 | 0 | 96 |
| Bro Morgannwg | 23 | 34 | 69 | 18 | 8 | 0 | 152 |
| Wrecsam | 25 | 20 | 27 | 7 | 15 | 0 | 94 |

## Atodiad B: Darpariaeth a chefnogaeth i blant â byddardod dros dro

| Gwasanaeth | Meini prawf a ddefnyddir | Nifer y plant â byddardod dros dro a gefnogir gan y gwasanaeth? |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen | Meini prawf NatSIP | - |
| Pen-y-bont | Meini prawf NatSIP | N/a |
| Caerdydd | Arall | 51 |
| Sir Gaerfyrddin | Meini prawf NatSIP | 79 |
| Ceredigion | Meini prawf NatSIP | 8 |
| Conwy | Meini prawf NatSIP | N/a |
| Sir Ddinbych | - | - |
| Sir y Fflint | Meini prawf NatSIP | 5 |
| Ynys Môn a Gwynedd | Datblygir y meini prawf yn lleol gan mwyaf | N/a |
| Merthyr Tydfil | Meini prawf NatSIP | * |
| Castell-nedd Port Talbot | Meini prawf NatSIP | 75 |
| Sir Benfro | Meini prawf NatSIP | 97 |
| Powys | Meini prawf NatSIP | 30 |
| Rhondda Cynon Taf | Meini prawf NatSIP | N/a |
| Abertawe | Meini prawf NatSIP | 62 |
| Bro Morgannwg | Meini prawf NatSIP | 10 |
| Wrecsam | Datblygir y meini prawf yn lleol gan mwyaf | 5 |

Nodiadau:

- Nodir '*' bod nifer y plant sydd o fewn y categori hwn yn llai na 5. Mae'r ffigur gwir wedi'i amnewid am serennig er mwyn osgoi'r perygl o adnabod plant unigol. Awgrymir '**' bod y cyfanswm am y gwasanaeth hwnnw wedi'i dalgrynnu i'r rhif 5 agosaf er mwyn osgoi gallu cyfrifo'r ffigurau sydd wedi'u hamnewid â serennig.
- Nodir '-' na dderbyniwyd ymateb i'r cwestiwn perthnasol.
- Cyfeirir "Meini prawf NatSIP" at Feini Prawf Cymhwysedd NatSIP (2102), Meini Prawf Cymhwysedd SESIP/SERSEN (200) neu Feini Prawf SERSEN (2005)